# TASG: THERMOMEDR TEIMLADAU

PAN WYT TI'N TEIMLO'N SÂL WYT TI'N CAEL Y TEIMLAD DOES NEB YN DY GREDU DI? WEL O'DD TRYSTAN YN TEIMLO'R UN FATH YN Y RHAGLEN. DOEDD E DDIM EISIAU MYND I WELD Y DOCTOR ACHOS DOEDD E DDIM YN MEDDWL BASE FE'N EI GREDU CHWAITH! MAE'N ANODD DANGOS WEITHIAU AR Y TU ALLAN SUT WYT TI'N TEIMLO AR Y TU FEWN ONDYW E? BETH AM I NI GEISIO DARGANFOD BETH SY'N GWNEUD I CHI DEIMLO'N FODLON NEU'N BRYDERUS?

CYMRWCH **THERMOMEDR TEIMLADAU** YR UN. FE WELWCH CHI TAW GRADDFA'R THERMOMEDR YW:

| | |
|---|---|
| 1. | **BODLON, HAPUS A PHWYLLOG** |
| 2. | **IAWN** |
| 3. | **YCHYDIG YN ANNIFYR** |
| 4. | **TEIMLO'N DDRYSLYD** |
| 5. | **CAEL TRAFFERTH MEDDWL YN GLIR** |
| 6. | **MEDDWL AC AIL-FEDDWL AM BETHAU** |
| 7. | **TEIMLO WEDI FY LLETHU** |
| 8. | **WEDI FY LLETHU A DIM AWYDD GWNEUD DIM** |
| 9. | **PRYDERUS IAWN** |

GYDA PHARTNER, GOSODWCH SEFYLLFAOEDD CYFARWYDD I CHI AR EICH **THERMOMEDR TEIMLADAU.** Y MATHAU O SEFYLLFAOEDD GALLWCH FEDDWL AMDANYNT YW:

- **MYND I PROM DIWEDD BLWYDDYN 6**
- **DARLLEN MEWN GWASANAETH YSGOL**
- **METHU GÔL MEWN GÊM BÊL-DROED**
- **CIWIO AM GINIO YN Y FFREUTUR**
- **AROS DROS NOS YN NHŶ FFRIND**
- **ATEB CWESTIWN YN Y DOSBARTH**
- **MYND AR GOLL YN Y PARC**
- **COLLI FY FFÔN**
- **PARATOI AR GYFER PRAWF SILLAFU**
- **DADLAU GYDA FY FFRIND GORAU**



YDY DY BRYDERON DI'N DEBYG I BRYDERON DY BARTNER? TRAFODWCH Y GWAHANIAETH RHWNG Y THERMOMEDRAU AC EGLURWCH I'CH GILYDD PAM EICH BOD CHI WEDI GOSOD Y SEFYLLFAOEDD YMA AR Y FATH RADDFA.